

28^{ain} Ionawr 2022

Annwyl Rieni / Gwarcheidwad,

Dyma ychydig o wybodaeth bellach i chi ar gyfer y Tymor sydd i ddod a rhai gweithgareddau a fu, gan gynnwys rhai negeseuon pwysig ar gyfer eich sylw. Cofiwch ein dilyn ar ein cyfrif Trydar a'r Weplyfr ar y cyfeiriadau canlynol: @YsgolYstalyfera @ygybdcynradd; Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur (gweplyfr) er mwyn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf o'r ysgol.

Cofiwch hefyd bod ein gwefan newydd nawr yn fyw a bod yr holl ohebiaeth, newyddion ac enghreifftiau o waith bendigedig ein disgyblion yn cael eu harddangos drwy'r cyfrwng hwn: www.ysgolgymraegystalyferabrodur.cymru

Presenoldeb, COVID-19 a Phrydlondeb

Mae wedi bod yn adeg heriol iawn o ran Presenoldeb, a hoffwn ddiolch i chi am gyd-weithio gyda ni o ran ein protocol diogelu rhag COVID-19, a digwyddiadau salwch eraill, sydd wrth gwrs oll yn parhau yn eu lle. Wedi dweud hyn, rydym yn llwyr ymwybodol o faint o ysgol a gollwyd gan rai ac rydym yn dymuno i ddisgyblion fod yn yr ysgol ar bob achlysur posib er mwyn cyrraedd eu targed personol o 95% o ran Presenoldeb. Mae cyrraedd y targed hwn ble bynnag y mae'n bosib yn golygu bod disgyblion yn medru profi cynnydd a chael mynediad i'r Cwricwlwm lawn.

Rydym yn parhau â rhai teuluoedd sydd yn mynychu yn hwyr, wedi i'r gofrestr gau yn aml. Gofynnwn yn garedig i chi sicrhau eich bod yn cyrraedd yn brydlon am 8.40yb er mwyn lleihau unrhyw doriad mewn rwtin cyson ein plant a'n bobl ifainc. Mae'n sesiwn dyddiol cyntaf â ffocws cryf ar lythrennedd, ac os yw plentyn yn colli'r sesiynau hyn, bydd yn cael effaith negyddol ar allu disgyblion i ddarllen, ysgrifennu a gwrando'n dda.

Ysmygu ac e- sigarêts ar safle'r ysgol

Gofynnwn yn garedig i chi oll i barchu'r ffaith bod ein safle yn un ddi-fwg llwyr, gan gynnwys y defnydd o sigarêts ac e- sigarêts. Diolch i chi ymlaen llaw am eich cefnogaeth wrth llynu'n gadarn at y rheol hon.

Parcio

Gofynnwn i chi fod â gofal wrth barcio ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol wrth y safle er mwyn diogelu pawb sydd yn mynd a dod ar y safle. Diolch am eich cydweithrediad. Gofynnwn eto i chi beidio â defnyddio'r maes parcio staff o.g.y.dd.

Dechrau ein partneriaeth gyda 'Fy Nyffryn Gwyrdd'

Rydym wedi dechrau cyd-weithio gyda'r criw cymunedol 'Fy Nyffryn Gwyrdd' er mwyn cadw'n cymuned yn daclus. Dyma ddisgyblion dosbarth Blodeuwedd yn mwynhau casglu sbwriel a chadw'n hardal leol yn hardd. Bydd cyfleoedd ar gyfer dosbarthiadau eraill yn ystod y Tymor nesaf.



Dathliadau'r URDD yn 100!

Ar Ionawr 25ain, buom yn dathlu pen-blwydd yr Urdd yn 100 oed yn ein lliwiau coch, gwyn a gwyrdd. Dyma sefydliad gwych yng Nghymru sydd wedi rhoi cymaint o gyfleoedd i bobl ifainc gan gynnwys clybiau, lleoliadau teithiau preswyl ac wrth gwrs yr Eisteddfod. Wnaeth y disgyblion fwynhau ymarfer can Mistar Urdd a bod yn rhan o geisio torri record y byd! Gallwch weld y disgyblion yn canu drwy edrych ar ein cyfrif Trydar neu'r Weplyfr.

Gweithgareddau Cwricwlaidd ac allgyrsiol yn yr awyr agored

Mae disgyblion yr Adran Iau wedi derbyn profiadau di-ri unwaith eto dros y cyfnod diwethaf i ddysgu a mwynhau yn yr awyr agored. Bu cyfleoedd i greu cynefinoedd anifeiliaid newydd gan ddefnyddio deunyddiau naturiol a phlannu cennin pedr mewn partneriaeth gyda Mr Richard Davies o'r Adran Hanes a Dyniaethau.



Mae Blwyddyn 1 wedi bod yn casglu deunyddiau naturiol i greu rocedi yn ogystal.



Dathlu Dydd Santes Dwynwen

Mae'n ddisgyblion wedi bod yn mwynhau llu o weithgareddau celf a chrefft hyfryd yr wythnos hon, yn ogystal â dysgu mwy am hanes Dwynwen. Dyma rai o weithgareddau'r dosbarth Derbyn, Blwyddyn 2 a'r Meithrin.



Gweithdy cyfansoddi can ar chwedl y Twrch Trwyth

Buom yn ffodus iawn croesawu Bardd Plant Cymru, sef Casi Wyn i'r ysgol er mwyn cyfansoddi cân wreiddiol gyda rhai o ddisgyblion Blwyddyn 5,6 a 7 yn ddiweddar. Mae'r gân newydd yn seiliedig ar chwedl y Twrch Trwyth a bydd yn cael ei ddarlledu am y tro cyntaf ar Ddydd Miwsig Cymru, sef ar Chwefror 4ydd. Braff oedd gweld y disgyblion yn mwynhau sesiwn greadigol gan ddangos eu dawniau arbennig.



Calendr

Hoffwn eich hysbysu o rai dyddiadau pwysig dros y cyfnod nesaf:

04.02.22	Gwasanaeth dosbarth Blodeuwedd (Miss Sali Lloyd) ar TEAMS – bydd ar gael o 9yb (gellir ei weld ar adeg sy'n gyfleus i chi)
08 & 09.02.22	Nosweithiau Rieni Cynradd – trefniadau i ddilyn (ni fydd y cyfarfodydd yn rhai wyneb i wyneb)
18.02.22	Dydd Gŵyl y Banc ychwanegol i'w gymryd ar gyfer dathliadau'r Jiwbilî
21.02 i 25.02.22	Gwyliau Hanner Tymor
01.03.22	Dathliadau Dydd Gŵyl Dewi - croeso i ddisgyblion wisgo dillad traddodiadol Cymreig / gwisg goch
02.03.22	Sesiwn PC Hughes Bl 6 - Cyffuriau Sesiwn PC Hughes Bl 3 – Cadw'n SMART ar y we
07.03 i 09.03.22	Taith breswyl Bl 6 i Lan-Ilyn
09.03.22	Nyrs ysgol yn ymweld â'r dosbarth Derbyn
08.04.22	Diwedd Tymor y Gwanwyn
11.02 i 22.04.22	Gwyliau Pasg
25.04.22	Tymor yr Haf yn ail-ddechrau i bawb

Diolch yn fawr i chi am eich cefnogaeth barhaus,



Mrs Angharad Lloyd
Arweinydd Y Cynradd